**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**27ain Medi 2010**

**Diweddariad ar Weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a newidiadau eraill ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2010-11**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a'u hysbysu am newidiadau eraill i'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11.

## CYFLWYNIAD

2 Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio, cyflwynwyd adroddiad i Aelodau am yr IFRS yn y meysydd canlynol - Dadansoddiad Effaith, Newidiadau i'r Polisïau Cyfrifo a'r Cynllun Prosiect. Fel rhan o'r Cynllun Prosiect y cam nesaf oedd cyflwyno cyfrifon 2009-10 yn dilyni eu diwygio o ganlyniad i'r IFRS. Mae hefyd yn angenrheidiol hysbysu Aelodau o unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â'r IFRS.

3 Ar gyfer cyfrifon 2010-11 mae rhai newidiadau arfaethedig eraill sydd angen eu hadrodd i'r Aelodau. Y newid cyntaf yw paratoad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n disodli'r Datganiad Rheolaeth Fewnol. Yr ail gynnig yw safoni'r cyfrifon a gynhyrchir gan y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Ceir mwy o fanylion isod am y newidiadau arfaethedig.

## DIWEDDARIAD IFRS

4 Y bwriad oedd cyflwyno'r cyfrifon diwygiedig ar gyfer 2009-10 yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, nid yw wedi bod yn bosib cwrdd â'r dyddiad hyn oherwydd cyfyngiadau amser a'r cynnig yw bod dyddiad cwblhau'r dasg yn cael ei newid i ddiwedd Hydref.

5 Mae'r Archwilwyr allanol wedi adolygu rhywfaint o'r gwaith sydd wedi ei wneud ar gyfer gweithredu'r IFRS a ceir adroddiad ar lafar am hyn yn y cyfarfod.

6 Hysbyswyd Aelodau eisoes ynglŷn â'r buddion gweithwyr - os nad oedd newidiadau statudol yn cael eu gwneud byddai rhaid talu buddion gweithwyr yn y flwyddyn y'i henillir yn dilyn cyflwyniad yr IFRS. Amcangyfrifwyd mai'r gost i'r Awdurdod fyddai £369,000. Mae deddfwriaeth i alluogi'r Awdurdod i wrthdroi'r croniad wedi ei gynnwys fel rhan o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2010.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

7 Mae'n debyg bydd rhaid i'r awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2010-11. Er mwyn dangos trefn rheoli da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio gydag egwyddorau craidd a nodir yn Fframwaith CIPFA a SOLACE 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol. Bydd y datganiad yn disodli Datganiad Rheolaeth Fewnol a gynhyrchir ar hyn o bryd. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddatganiad yw'r manylion a ddarperir, mae'r Datganiad Rheolaeth Fewnol gyfredol yn bedair tudalen o hyd a disgwylir y bydd y Datganiad Llywodraethu yn ddeg tudalen o hyd. Bydd y gwaith ar y datganiad newydd yn mynd rhagddo'n fuan a chynigir cyflwyno copi drafft o'r datganiad i'r Pwyllgor Archwilio ei graffu cyn ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod llawn.

## SAFONI CYFRIFON

8 Gwnaed cynnig gan ein Harchwilwyr allanol i safoni gwedd y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Byddai safoni y Datganiad o fudd wrth gymharu'r

cyfrifon ac yn cynorthwyo'r Archwilwyr wrth iddynt archwilio'r cyfrifon. Byddai cydweithio rhwng y tri Awdurdod yn galluogi rhannu gwybodaeth arbenigol a allai olygu arbed amser wrth gynhyrchu'r cyfrifon. Y prif wahaniaeth rhwng cyfrifon yr Awdurdodau yw faint o fanylion a gynhwysir ynddynt - Gogledd Cymru 36 tudalen, Canolbarth a De Orllewin Cymru 65 tudalen a De Cymru 66 tudalen.

**ARGYMHELLION**

7 Argymhellir fod y Pwyllgor Archwilio yn nodi'r:

(i) wybodaeth ar ddiweddariad yr IFRS;
(ii) cynnig a wnaed gan yr Archwilwyr Allanol i safoni gwedd y cyfrifon;

ac yn cymeradwyo'r canlynol:

(iii) fod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn y cyfrifoldeb o graffu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.